# CYNGOR CYMUNED LLANWDA COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION – CYFARFOD CHWEFROR 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 17eg o Chwefror, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Huw Rowlands.<br>Yn bresennol roedd Aeron M Jones, Gwilym Thomas, Elin Evans, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Jason Hunt, Peter Roberts, Gillian Wynne Thomas (Clerc) a Dylan Humphreys. |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Michelle Williams, Gwilym Williams, Bryn Hughes a Tom Ellis. |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION 17/01/21 A MATERION YN CODI** |
| | Cais gan GT I'r Clerc gywiro un pwynt sef nid oedd Gwilym Williams yn y cyfarfod.<br>Cynigwyd cywirdeb cofnodion Ionawr gan GT gyda NE yn eilio, cytunodd pawb.<br><br>**<u>Llwybr Bryngwyn</u>**<br>Derbyniwyd rhestr o'r gwaith sydd angen ei wneud gan RD - y Clerc I'w yrru ymlaen I Gwmni Griffiths a gofyn a bydd posib derbyn unrhyw gymorth. |
| 5. | **MATERION MISOL** |
| | **a) <u>Caeau chwarae Rhosgadfan, Rhostryfan a Saron</u>**<br><br>Derbyniwyd cais gan Dylan Humphreys I'r Cyngor Cymuned gytuno I dderbyn cyfrifoldeb ac arwain ceisiadau am grantiau i gael offer i gae chwarae Rhosgadfan gan mae erbyn hyn dim ond un sydd ar y Pwyllgor.<br>Eglurodd NE ni fydd hyn yn bosib gan nid y Cyngor Cymuned yw perchnogion y safle.<br>Esboniodd y Clerc mae'r cyngor oedd wedi ei dderbyn yw bod aelod o'r Cyngor Cymuned yn ymuno a Phwyllgor y Cae Chwarae er mwyn cymorth DH ar y ceisiadau.<br>Trafodwyd rheolau'r Pwyllgor bod rhaid cael unigolyn o Rosgadfan I ymuno. Gwirfoddololdd RD I ymuno a chynigiodd AMJ unrhyw gymorth fel bydd angen. |

Llofnodwyd gan ............................................................................. Dyddiad .......................................................................

*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

Wrth gysoni cyfrifoldebau am y caeau chwarae esboniodd AWJ:

**Caeau Chwarae Rhosgadfan:**

Perchnogion : Pwyllgor Neuadd Rhosgadfan – Jeff Pritchard fel Ymddiriedolwr y Parc a Phwyllgor y Cae Chwarae fel Ymddiriedolwyr y Cae Chwarae

Yswiriant ac asesiad risg: Cyngor Cymuned Llanwnda

Clirio a thorri gwair: DH yn clirio a thorri gwair y Cae chware

Derbyniwyd gadarnhad bod ffarmwr lleol yn torri gwair Parc Rhosgadfan a Phwyllgor y Cae Chwarae yn derbyn arian am y gwair.

**Cae Chwarae Rhostryfan:**

Perchnogion: Pwyllgor Neuadd Rhostryfan,
Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am y Cae Pêl Droed

Yswiriant ac asesiad risg: Cyngor Cymuned Llanwnda

Clirio: Cyngor Cymuned Llanwnda

**Cae Chwarae Saron:**

Cyngor Sir yn hollol gyfrifol

Esboniodd AMJ bod peiriannau ar gael ar gyfer llecynnau gwyrdd y ward yn dilyn derbyn grant gan Gyngor Gwynedd. Cododd NE bryderon am gyfrifoldebau'r peiriannau. Cynigiodd HR bod y Cygnor yn ei ychwanegu fel asedau'r Cyngor - cytunodd pawb - y clerc i wneud ymholiadau gyda'r cwmni yswiriant.
Y Clerc hefyd i wneud ymholiadau pwy yw'r cyswllt gorau i dderbyn gwybodaeth ar gyfer Cae Chwarae Rhostryfan.

**b) <u>Graenu a biniau halen y Ward</u>**

Esboniodd AMJ bod y Cyngor Cymuned eisoes wedi mabwysiadu cyngor eu hyswirwyr i beidio â derbyn cyfrifoldeb i lenwi'r bocsys greuan. I berwyl hyn mae'r cyfrifoldeb cyfreithlon i raenu a llenwi'r bocsys grean yn parhau gyda Chyngor Gwynedd.
Eglurodd RD ei fod wedi derbyn adborth gan rhai trigolion sy'n bygwth cychwyn petishiwn oherwydd peryglon yn dilyn ddifygion greanu a bocsys graen yn wag.
Trafodwyd tirwedd y ward a lleoliad y biniau halen ac anhawster bydd hyn yn creu i'r Cyngor Cymuned eu llenwi hefyd pryderon i ymwneud a Gwasanaethu brys.
Y Clerc I ofyn am adborth pellach gan y Cwmni Yswiriant hefyd ymestyn gwahoddiad I Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor Sir i gyfarfod misol y Cyngor Cymuned ym mis Mawrth.



*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **c) Llwybr Ysgol Rhostryfan**<br>Rhannodd y Clerc ddiweddariad gan Nia Parri oedd wedi ei dderbyn gan Garem Jackson.<br>*"Rydych yn gywir i nodi bod ymchwiliad a chynhyrchu adroddiad wedi digwydd. Mae ymweliadau dilynol hefyd wedi digwydd er mwyn gweld effaith newidiadau ffisegol ac effaith gweithredu argymhellion eraill. Nodir ein bod yn gwerthfawrogi*<br>*parodrwydd yr ysgol i godi materion, a'r cydweithrediad sydd wedi bod rhwng yr ysgol a swyddogion o'r Cyngor i geisio gwella'r sefyllfa.*<br>*Yn dilyn yr ymweliad diwethaf, deellir bod sgwrs wedi'i gynnal ynglŷn â'r posibilrwydd o osod llinellau melyn y naill ochr a'r llall o'r ffordd ger y man croesi am gyfnod byr. Byddai llwyddiant (neu beidio) gweithred o'r fath yn ddibynnol ar rieni'r ysgol yn ufuddhau i orchmynion y ffordd fawr - rhywbeth nad ydynt yn ei wneud ar hyn o bryd yng nghyd-destun yr arwydd 'Cadwch yn glir' sydd ar ochr yr ysgol o'r ffordd.*<br>*Deellir bod y mater llinellau melyn bellach yn derbyn sylw'r Adran Gyfreithiol ac yn aros am ymgynghoriad cyhoeddus.*<br>*Bydd swyddogion yn parhau i fonitro 'r sefyllfa'r ysgol, ond yn y cyfamser, os cyfyd pryder o'r newydd, mae croeso i unrhyw un gysylltu â'r Adran Addysg er mwyn derbyn cyngor/arweiniad pellach."*<br>Codwyd pryderon gan NE bod dim yn cynnwys y llythyr yn cyfeirio tug at y rheiliau sydd achos y peryglon.<br><br>**d) AMJ - Ymgynghoriad y Cyngor Cymuned**<br>Cynigiodd AMJ ymgynghori gyda'r trigolion, esboniodd buasai cost hyn oddeutu £3,000.00.<br>Trafodwyd cynnwys y'r ymgynghoriad. Cynigiodd EE gyfeirio trigolion i ymateb ar wefan y Cyngor - Y Clerc I wneud holiadau os bydd posib gwneud hyn.<br>AMJ i baratoi draft i'w drafod. |
| 6. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | Dim |
| 7. | **MATERION ARIANNOL** |
| | **a) Adroddiad Ariannol**<br>Ymddiheurodd y Clerc ac esbonio er gwaethaf iddi dderbyn y gyfriflen at fis Ionawr roedd y Banc wedi rhwystro gohebiaeth bellach yn dilyn prawf o'i chyfeiriad yn cael ei gwestiynu gyda chamsillafiad ar ei thrwydded yrru.<br>Cytunodd y Clerc i adnewyddu ei thrwydded yrru a pharhau i wneud trefniadau er mwyn derbyn y gyfriflen.<br>Cytunwyd fis diwethaf i ddileu'r Clerc blaenorol o'r mandate ac ychwanegu'r clerc presennol gan gadw gweddill y llofnodwyr presennol.<br>Cytunwyd os bydd trafferthion yn parhau i wneud trefniadau fel bod dau o'r llofnodwyr yn arwyddo.<br><br>**b) Taliadau i'w cymeradwyo**<br>£324.90 – Swyddfa Archwilio Cymru<br>£575.00 – Cyflog Clerc |



*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| 8. | **MATERION CYNLLUNIO** |
| | a) Rhif Cais: C21/0044/24/DT - Gwerin, 1 Cae'r Eglwys, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7LQ<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau - Y Clerc I adrodd dim gwrthwynebiad i'r Cygnor Sir. |
| 9. | **GOHEBIAETH A CHYLCHGRONAU** |
| | **a) Rhybudd - Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn a Bronallt, Rhosgadfan ar yr 8fed o Chwefror, 2021**<br>Y Clerc wedi ei rannu ar dudalen Face Book y Cyngor<br><br>**b) Canllawiau drafft newydd Cod Ymddygiad gan Un Llais Cymru**<br>Ni Dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**c) Cais gan Lyfrgell Genedlaerhl Cymru I ddarparu mynediad cyhoeddus i gopïau wedi'u harchifo o'r wefan y Cyngor.**<br>Cynigiodd NE rhoi'r hawl - Cytunodd pawb<br><br>**d) Gohirio Eisteddfod Genedlaethol 2021**<br>Derbyniwyd y wybodaeth<br><br>**e) Ad-daliad am waith torri llwybrau gan Gyngor Cymuned Llanwnda.**<br>Adroddodd y Clerc bod y wybodaeth briodol wedi ei yrru nôl i'r adran ar ran y Cyngor a byddent yn derbyn ad-daliad yn y dyfodol agos.<br><br>**f) Ymateb Julie James AS/MS Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y Gweinidog I lythyr y Cyngor**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau pellach |
| 10. | **MATERION CYFARFOD NESAF** |
| | **GW- Dim arwydd o'r un cyfeiriad i bentref Rhosisaf**<br>Y Clerc I ofyn i Gyngor Gwynedd os bydd modd lleoli arwyddion mewn mannau priodol.<br><br>**NW - Llwybr o Lanrafon I Gaeau Cochion ar dir Waunbant yn Rhostryfan I fynnu drwy dir Cae Coch**<br>Llwybr wedi dirywio yn sylweddol hefyd y gamfa angen sylw ac yn bryder pwy sydd â chyfrifoldeb os bod rhiw un yn brifo - y Clerc i gysylltu â Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.<br><br>**Dyddiad:** 17eg o Fawrth, 2021<br>**Lleoliad:** **Ar lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

Llofnodwyd gan ........................................................................ Dyddiad ..................................................................